# Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG)
# Grŵp Strategaeth Addysg
**Cylch Gorchwyl**

## 1. Diben

Tynnodd argymhellion 3 a 7d yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig (IBI)[1] sylw at yr angen parhaus am addysg trallwyso gwaed i bawb sy'n ymwneud â'r broses drallwyso gwaed er mwyn sicrhau diogelwch cleifion. Mae Cynllun Iechyd Gwaed GIG Cymru (BHP)[2] yn cydnabod cyfrifoldeb y Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG) wrth gefnogi argymhellion yr IBI, yn benodol argymhelliad 7: diogelwch cleifion: Trallwyso Gwaed.

Sefydlwyd Grŵp Strategaeth Addysg BHNOG i ddatblygu a gweithredu Strategaeth Addysg BHNOG 2024[3], yn unol â'r Cynllun Iechyd Gwaed ac felly i gyflawni argymhellion addysg yr IBI.

Bydd y Grŵp Strategaeth Addysg (ESG) yn datblygu rhaglen waith (cynllun gwaith ESG) i sicrhau bod addysg a hyfforddiant sy'n ymwneud ag arferion trallwyso gwaed diogel a rheolaeth gwaed cleifion yn cael eu darparu'n deg.

## 2. Nod

Nod y Grŵp Strategaeth Addysg yw goruchwylio a rhoi cyfeiriad i sicrhau dull cydlynol a safonol o ymdrin ag addysg a hyfforddiant ledled Cymru, fel y nodir yn y strategaeth addysg. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb o ran neges, lefel sylfaenol o wybodaeth ac yn atal dyblygu ymdrechion er mwyn gwneud y gorau o'r gweithlu. Cyflawnir hyn drwy weithio mewn partneriaeth â darparwyr addysg, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol allweddol ac arbenigwyr pwnc i gyflawni cynllun gwaith y Grŵp Strategaeth Addysg.

## 3. Llywodraethu

Mae'r Grŵp Strategaeth Addysg yn atebol i BHNOG ac yn dilyn llwybrau llywodraethu cydnabyddedig a ddiffinnir yng nghylch gorchwyl BHNOG[4].

## 4. Cadeirydd

Bydd cynrychiolydd o'r grŵp aelodaeth graidd yn gadeirydd ar y Grŵp Strategaeth Addysg a bydd BHNOG yn ei gefnogi. Bydd Dirprwy Gadeirydd hefyd yn cael ei recriwtio pan fydd y grŵp wedi'i sefydlu'n llawn. Mae tymor yn y swydd yn y rôl hon yn isafswm o 2 flynedd.

## 5. Aelodaeth

Bydd yr aelodaeth yn cael ei chydlynu i sicrhau cynrychiolaeth deg o Fyrddau Iechyd GIG Cymru. Os na all aelod craidd fod yn bresennol, disgwylir i ddirprwy dynodedig ddod yn ei le, lle y bo modd. Disgwylir cworwm o 4/6 o gynrychiolwyr o'r Byrddau Iechyd i sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau dilys a theg.

| |
|---|
| ***Aelodaeth Graidd*** |
| Cynrychiolaeth o Addysg Labordy Gwasanaeth Gwaed Cymru |
| Cynrychiolaeth o Dîm Iechyd Gwaed Gwasanaeth Gwaed Cymru |
| Cynrychiolaeth o Addysg Iechyd ac Arloesi Cymru |
| Cadeirydd Gweithgor Peryglon Difrifol o ran Trallwyso (SHOT) |
| Cynrychiolydd Grŵp Ymarferwyr Trallwyso Cymru Gyfan |
| Cynrychiolydd Grŵp Rheolwyr Labordai Trallwyso |
| Cynrychiolydd Arweinydd Ansawdd Trallwyso |
| Cynrychiolydd Haematolegydd / Cofrestrydd Arbenigol Haematoleg |
| Arweinydd Rhaglen Awdurdodi Trallwyso Cyfansoddion Gwaed yn Annibynnol |
| Cynrychiolydd Meddygon y Rhaglen Sylfaen |
| ***Aelodau nad ydynt yn aelodau craidd*** |
| Cynrychiolydd Addysg Feddygol Israddedig |
| Cynrychiolydd Addysg Nyrsio Israddedig |
| Cynrychiolydd Addysg Bydwreigiaeth Israddedig |
| Cynrychiolydd Addysg Rhaglenni Israddedig Perthynol i Ofal Iechyd |
| Cynrychiolydd Addysg Feddygol Ôl-raddedig |
| Cynrychiolydd Dysgu, Addysg a Datblygu |
| Cynrychiolydd Grŵp Addysg Wyddonol Grŵp Gweithlu ac Addysg Batholeg |

## 6. Fformat Cyfarfodydd a’r Dogfennau Angenrheidiol

Bydd y Grŵp Strategaeth Addysg yn cwrdd bob chwarter cyn cyfarfodydd BHNOG; cynhelir cyfarfodydd y Grŵp Strategaeth Addysg yn rhithwir dros MS Teams.

Bydd y Tîm Iechyd Gwaed yn rhoi cymorth gweinyddol.

Bydd angen y dogfennau canlynol:

- Nodiadau o'r cyfarfod blaenorol a chofnod gweithredu
- Dogfennau sy'n cefnogi eitemau ar yr agenda
- Adroddiadau chwarterol ar y prif bwyntiau

## 7. Cylch gorchwyl

Cylch gorchwyl y Grŵp Strategaeth Addysg yw:

- Gweithio yn ôl cynllun gwaith y Grŵp Strategaeth Addysg, a fydd yn cael ei adolygu a'i ddiwygio yn unol â Chynllun Iechyd Gwaed GIG Cymru[2] (cylch 3 blynedd)
- Cynhyrchu a chyflwyno adroddiadau chwarterol ar y prif bwyntiau ar gyfer cyfarfodydd BHNOG

- Cynhyrchu tystiolaeth a data ar lefel genedlaethol sy'n ymwneud â gweithredu a chyflawni Strategaeth Addysg BHNOG a chynllun gwaith y Grŵp Strategaeth Addysg.

## 8. Cyfeiriadau

[1.]Infected Blood Inquiry: The Report 2024

https://www.infectedbloodinquiry.org.uk/sites/default/files/Volume_1.pdf (Saesneg yn unig)

[2] Cynllun Iechyd Gwaed GIG Cymru 2024-2027

https://bhnog.wales.nhs.uk/wp-content/uploads/2024/04/BHP-2024_-en_gb-cy_gb-C-1.pdf

[3] Strategaeth Addysg Trallwyso Gwaed BHNOG

[4] Cylch Gorchwyl BHNOG - Ar gael a'r wefan y BHNOG